


# *PECYN CAIS*
# Cyfarwyddwr Addysg

# *Croeso*



Annwyl Gyfaill,

Mae ein hysgolion eglwysig yn rhan sylweddol a bywiog o deulu'r eglwys yn Esgobaeth Bangor, gan geisio adeiladu cymunedau gofal a dealltwriaeth ac adlewyrchu cariad Duw tuag atom ni i gyd. Mae gan ysgolion eglwysig gredoau a gwerthoedd Cristnogol wrth eu gwraidd. Mae hyn yn golygu bod pob plentyn ac oedolyn sy'n gysylltiedig â'r ysgol nid yn unig yn bwysig oherwydd eu bod yn aelodau o'r ysgol ond oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn unigolion unigryw o fewn creadigaeth Duw. Mae ysgolion eglwysig yn cydnabod bod gan fodau dynol, yn ogystal â deallusrwydd academaidd ac emosiynol, hefyd ddeallusrwydd ysbrydol. Bydd agweddau ysbrydol bywyd yn cael eu cydnabod a'u meithrin ochr yn ochr ag anghenion academaidd ac emosiynol pawb.

Mae Esgobaeth Bangor yn edrych ymlaen at gael cydweithiwr newydd fel Cyfarwyddwr Addysg a all arwain ein gweinidogaeth i'n hysgolion eglwysig. Mewn sawl ffordd, mae'r cyfnod nesaf hwn yn gyfnod o ail-ganolbwyntio ac ailadeiladu, ac rydym yn edrych ymlaen at y posibiliadau a'r cyfleoedd newydd y bydd hyn yn eu creu.

Fe welwch fod ysgol eglwysig cystal ag unrhyw ysgol dda arall, ond dylech hefyd deimlo bod y ffordd y mae'r ysgolion yn gweithio yn wahanol ac yn unigryw. Bydd y gwahaniaeth nodedig hwnnw wedi'i wreiddio mewn gwerthoedd Cristnogol sy'n effeithio ar fywyd cymuned yr ysgol. Bydd Cyfarwyddwr Addysg Bangor yn goruchwylio teulu o 16 ysgol gynradd, y mae eu maint yn adlewyrchu eu cymunedau lleol - rhai gwledig, rhai trefol. Mae'r mwyafrif yn ysgolion gwirfoddol a reolir, ac mae un yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

Rydym yn croesawu'n fawr eich diddordeb yn y cyfle hwn ac yn dymuno pob llwyddiant i chi yn eich cais i ddod yn Gyfarwyddwr Addysg Esgobaethol. Mae ein hysgolion yn ceisio hyrwyddo'r ansawdd uchaf ym mhopeth a wnânt, gan fyw a gweithio yng ngwerthoedd Iesu Grist bob dydd, fel y gall pawb ffynnu a chyflawni eu potensial. Gallwn eich sicrhau y cewch eich meithrin, eich cadarnhau a'ch cefnogi gennym ni a thimau esgobaethol ar draws gogledd Cymru yn y swydd hon.

Boed i Dduw eich Bendithio chi
Yr Esgob David Morris

# *Esgobaeth Bangor*

Rydym yn gymuned Gristnogol fywiog gyda hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif, wedi'i gwreiddio yn nhraddodiadau seintiau Celtaidd cynnar er enghraifft Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn, ac eraill. Mae'r seintiau hyn wedi'u hanfarwoli yn enwau ein heglwysi, ein pentrefi a'n trefi.

Er bod ein cenhadaeth yn parhau i fod yn gadarn dros fileniwm a hanner, mae ein cyd-destun cyfoes yn cyflwyno cyfleoedd newydd a heriol. Mewn ymateb, rydym wedi cofleidio gweledigaeth o ddilyn Iesu gyda brwdfrydedd o'r newydd a dulliau arloesol. Rydym wedi sefydlu tair egwyddor allweddol, tair blaenoriaeth, tri chynllun, a thri llwyfan newydd i arwain ein taith.

Darllenwch fwy am y rhain ar ein gwefan.

Mae ein hymrwymiad yn troi o amgylch tair egwyddor weledigaethol y credwn y dylent ddiffinio ein bywyd cymunedol:

- Addoli Duw.
- Tyfu'r Eglwys.
- Caru'r byd.

Mae Esgobaeth Bangor yn ymestyn o Gaergybi ar Ynys Môn i Lanidloes ym Mhowys, ac o Aberdaron ymhen pellaf Pen Llŷn i Landudno ar hyd arfordir y gogledd. Mae gan bob un ond 6 o'n 27 Ardal Weinidogaeth rannau enfawr o arfordir trawiadol ac mae gennym Yr Wyddfa a Chadair Idris o fewn ein ffin. Mae twristiaeth yn ddiwydiant hanfodol ym mron pob Ardal Weinidogaeth gyda nifer fawr yn ymweld â'r arfordir a'r Parciau Cenedlaethol yn ogystal â theuluoedd ag ail gartrefi.

Mae llawer o'r esgobaeth yn cynnwys cymunedau gwledig, gwasgaredig gyda'r Gymraeg yn iaith gyntaf i nifer fawr o'r rhain.



# Ychydig o hanes ysgolion eglwysig

Sefydlwyd y rhan fwyaf o ysgolion eglwysig yr esgobaeth dan ymddiriedolaethau i ddarparu addysgu addysg yn ôl daliadau'r Eglwys.

Ym 1811 sefydlwyd y 'Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Hyrwyddo Addysg Grefyddol' i gefnogi Ysgolion Eglwys Loegr. Mae'r corff hwn yn dal i fodoli, ac yn gyffredinol mae'n cael ei adnabod fel 'Y Gymdeithas Genedlaethol', ac mae'n darparu adnoddau helaeth i ysgolion, esgobaethau a phlwyfi. Mae hyn yn rhagddyddio datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru ym 1920 pan symudodd Ysgolion Eglwysig yng Nghymru i ffwrdd o Eglwys Loegr a dod yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ond cawsant eu cefnogi gan Y Gymdeithas Genedlaethol a oedd â chyfrifoldeb i gefnogi ysgolion eglwysig yng Nghymru a Lloegr.

Sefydlwyd ysgolion eglwysig o dan Weithred Ymddiriedolaeth. Byddem yn

annog penaethiaid newydd gyda llywodraethwyr i fyfyrio ar nodau gwreiddiol yr ysgol yn y Weithred Ymddiriedolaeth ac edrych i weld sut drodd hyn yn ddatganiad ethos presennol yn Offeryn Llywodraethu'r ysgol ac amcanion, cenhadaeth a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Dylai copi o'r Weithred Ymddiriedolaeth fod yn yr ysgol neu yn Swyddfeydd yr Esgobaeth.

Creodd Deddf Addysg 1944 ddau fath o ysgol Eglwysig, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgol Wirfoddol a Reolir.

Mae pob ysgol Eglwys yn rhan o gynnig addysg eang mewn Cymru fywiog a byw, lle gall yr Eglwys yng Nghymru roi gwasanaeth sylweddol a thystiolaeth i'w chymunedau ehangach. Mae ysgolion eglwysig yn cynnig addysg i bawb, o'r safonau uchaf yn seiliedig ar werthoedd Cristnogol yng nghalon ein cymunedau.







# *Disgrifiad o'r swydd*

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yn Esgobaeth Bangor
Yn gyfrifol i: Ysgrifennydd yr Esgobaeth, Bangor
Lleoliad: Tŷ Deiniol, Bangor

Diben y Swydd:

- Sicrhau'r ddarpariaeth o addysg statudol o ansawdd uchel sy'n mynegi'r ethos Cristnogol ac sy'n sefyll wrth wraidd cenhadaeth yr Eglwys ar draws yr Esgobaeth.
- Darparu arweiniad proffesiynol, cyngor a chyfarwyddyd i'r Bwrdd Addysg Statudol Esgobaethol.
- Sicrhau bod plant yn dod yn gyntaf yn ein hysgolion eglwysig a bod eu hiechyd a'u llesiant yn cael eu diogelu mewn cyd-destun Cristnogol.
- Sicrhau bod ein hysgolion eglwysig yn gallu ymgysylltu'n hyderus â'r fframwaith a'r broses Arolygu Adran 50 newydd.
- Sicrhau bod yr holl ofynion statudol a chyfreithiol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a reolir, ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cael eu bodloni.
- Cysylltu'n effeithiol ag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Estyn, Rhwydwaith a Swyddfa Addysg Daleithiol Yr Eglwys Yng Nghymru, partneriaid eciwmenaidd, y cyfryngau, esgobaethau cyfagos ac asiantaethau eraill i sicrhau dylanwad Yr Eglwys Yng Nghymru wrth ddatblygu darpariaeth addysg o safon yn lleol ac yn genedlaethol.
- Rhagweld ac ymateb i newidiadau mewn polisi a chyfleoedd addysgol a chynghori'r Bwrdd Addysg Statudol Esgobaethol.
- Gwasanaethu ar bwyllgorau yn ôl yr angen, fel Ymddiriedolaeth Coleg y Santes Fair
- Annog a chefnogi Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth, clerigwyr a lleygwyr eraill yn eu cenhadaeth i'w Ysgolion Eglwysig
- Cysylltu â staff perthnasol eraill yr Esgobaeth i hyrwyddo ein gwaith cenhadol gydag ein hysgolion eglwysig a'u cymunedau.
- Bod yn rhan o dîm esgobaethol cryf ei gymhelliad, effeithiol a phroffesiynol.

# *Cyfrifoldebau Allweddol*

## Cyfrifoldebau Allweddol:

- Hyrwyddo perthynas gadarnhaol gyda phob ysgol eglwysig a rhwng ysgolion er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn i'r teulu esgobaethol.
- Cyfleu gweledigaeth a gwerthoedd ysgolion eglwysig, yn enwedig gyda phenaethiaid a llywodraethwyr, i hyrwyddo a sicrhau dull gweithredu Cristnogol arbennig o ymdrin ag addysg.
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Daleithiol ar y broses Arolygon Adran 50 ganolog newydd i sicrhau bod ysgolion yn hyderus yn y broses a'u hunanwerthusiad.

## Codi safonau

- Deall y strategaethau y mae angen eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith o wella ysgolion, yn enwedig yr ysgolion hynny sydd â'r angen mwyaf.
- Cysylltu ag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru ynghylch ysgolion penodol i ganfod a chyfleu cefnogaeth ac ymyrraeth briodol.

## Cyflawni Cenhadaeth yr Eglwys

- Gweithio gydag eraill o bob rhan o'r Esgobaeth i gyflawni'r digwyddiad blynyddol yn yr Eglwys Gadeiriol ar gyfer y rhai sy'n ymadael â'r ysgol.
- Galluogi cyfraniad a chyfranogiad ysgolion ar bob lefel ym mywyd esgobaethol fel bod llais a chreadigrwydd plant a phobl ifanc yn cael eu profi a'u gwerthfawrogi.
- Cefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth yn eu hymgysylltiad a'u gwaith gyda'u hysgolion Eglwysig.
- Cynghori'r Esgobion ar faterion addysgol gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff perthnasol eraill.
- Mynychu pwyllgorau esgobaethol pan fo hynny'n briodol.

## Llywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr

- Goruchwylio'r trefniadau ar gyfer penodi a thynnu Llywodraethwyr Sefydledig mewn ysgolion eglwysig.
- Cynghori ymddiriedolwyr ysgolion eglwysig a sicrhau bod Offerynnau Llywodraethu yn gyfredol ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
- Mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr yn ôl y gofyn a chynnig hyfforddiant yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Addysg Statudol Esgobaethol a chydweithwyr esgobaethol ar faterion yn ymwneud â thrafodiadau tir ac eiddo ysgolion.
- Sicrhau bod llywodraethwyr yn cael cyngor priodol ar rwymedigaethau a hawliau mewn perthynas â materion cyfreithiol a gweinyddol.

## Deddfwriaeth

- Cynnal cysylltiad â Llywodraeth Cymru, y Comisiynwyr Elusennau, a chyfreithwyr y Bwrdd ar bob mater cyfreithiol.
- Fel y bo'n briodol, cymryd rhan mewn materion sy'n codi o Ddeddfau Addysg sy'n ymwneud â phrif gyfrifoldebau'r swydd.
- Bod â gwybodaeth gyfredol am yr holl ddatblygiadau deddfwriaethol a phroffesiynol ym maes addysg a chynghori a chychwyn datblygiadau mewn ysgolion eglwysig fel y bo'n briodol; gwerthuso adroddiadau swyddogol a chynorthwyo eraill wrth eu gweithredu.

## Derbyniadau ac Apeliadau

- Sicrhau bod polisi derbyn ein hysgol wirfoddol a gynorthwyir yn cael ei lunio yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf a bod ymgynghoriad cywir yn cael ei gynnal.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i gynghori ynghylch apeliadau derbyn a gwahardd a goruchwylio'r trefniadau ar gyfer gwrandawiadau apêl yn ôl yr angen ar gyfer ein hysgol wirfoddol a gynorthwyir.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- ·Sicrhau'r ddarpariaeth o hyfforddiant o safon ar gyfer penaethiaid, Llywodraethwyr Sefydledig, staff a chlerigwyr, yn enwedig mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd, ethos Cristnogol a'r Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## Cefnogaeth AD i ysgolion

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i roi cyngor i Gyrff Llywodraethu ynghylch penodiadau penaethiaid.
- Cynghori a mynychu ysgolion eglwysig adeg llunio rhestr fer a chyfweliadau yn ôl yr angen.

## Materion adeiladau

- ·Ar y cyd â chydweithwyr yn Esgobaeth Llanelwy, goruchwylio'r dyraniad blynyddol y rhaglen atgyweiriadau cyfalaf a chynnal a chadw (CRAMP) a'r rhaglen dreigl o waith adeiladu yn ein hysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gan gynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.
- ·Gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i sicrhau'r canlyniadau gorau i ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, o ran cau, ffedereiddio, cyfuno ac ysgolion newydd posibl.

## Bwrdd Addysg Statudol yr Esgobaeth

- Gyda'r Cadeirydd, datblygu a llunio gweledigaeth a strwythurau'r bwrdd addysg statudol esgobaethol fel y gall ymateb i gyfleoedd a heriau byd addysg sy'n newid.
- Goruchwylio'r gwaith o baratoi agendâu, papurau a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd addysg statudol esgobaethol, eu mynychu a chynghori'r Cadeirydd.
- Mewn partneriaeth â Swyddogion Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, sicrhau bod cyllid ac adnoddau'r Bwrdd yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Cysylltiadau eraill

- Sicrhau bod yr Esgobaethau'n cael eu cynrychioli ar Bwyllgorau Craffu Addysg Awdurdodau Lleol, Pwyllgorau Cynghorol Statudol a Phwyllgorau Statudol eraill fel y bo'n briodol.
- Cynrychioli'r Esgobaeth yn ôl yr angen, ar sail genedlaethol a rhanbarthol.
- Cysylltu â phob sefydliad addysgol arall yn yr Esgobaeth sydd â Sefydliad Yr Eglwys yng Nghymru.

## Perthnasoedd Gweithio Allweddol

- Archesgob Cymru
- Esgob Enlli
- Ysgrifennydd yr Esgobaeth
- Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Addysg Statudol Esgobaethol
- Penaethiaid a Llywodraethwyr Ysgolion Eglwysig
- Arweinwyr Ardal Weinidogaeth a Chlerigwyr eraill
- Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol a'u swyddogion enwebedig
- Cynghorwyr Gwella Ysgolion Statudol
- Tîm Tŷ Deiniol
- Cyfarwyddwr Addysg Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru
- Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol (Yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig)
- Llywodraeth Cymru ac Estyn
- Y Gymdeithas Genedlaethol
- Cynghorwyr Cyfreithiol a Chontractwyr

# *Manyleb y Person*

H = Hanfodol; D = Dymunol
T = Tystiolaeth: Ll = Llythyr a CV; C = Cyfweliadau a thasgau dethol; G = Geirda

| Meini prawf | H | D | T |
|---|---|---|---|
| Cristion sy'n gallu mynegi empathi cryf â rôl yr Eglwys yng Nghymru mewn Addysg | * | | Ll, G |
| Cymwysterau | | | |
| Statws Athro Cymwysedig | | * | Ll |
| Gradd Prifysgol neu gymhwyster cyfatebol | * | | Ll |
| Cymwysterau hyfforddiant mewn swydd | | * | L |
| Profiad | | | |
| Profiad o uwch-reoli mewn addysg gynradd | | * | Ll, C, G |
| Gweithio gyda (mewn) Ysgol yr Eglwys yng Nghymru | | * | Ll |
| Gweithio ym maes Datblygiad Ysbrydol plant a phobl Ifanc | | * | Ll |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | * | | Ll |

| Arweinyddiaeth, Gwybodaeth a Dealltwriaeth Strategol | H | D | T |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o werthoedd ysgol Eglwysig, gyda'r hyder i fynegi hyn | * | | Ll, C, G |
| Y gallu i lywio deinameg sefydliadol cymhleth a galluogi newid | * | | Ll, C |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o addysg gynradd yn enwedig mewn perthynas ag arwain a rheoli ysgolion | * | | Ll, C |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o broses arolygu ESTYN ac arolygiadau Adran 50 | * | | Ll, C |
| Dealltwriaeth o lywodraethu mewn cysylltiad ag ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a'r bwrdd addysg statudol esgobaethol | * | | Ll, C, G |
| Y gallu i gynghori ac arwain y broses recriwtio pennaeth | * | | Ll, C, G |
| Dealltwriaeth o reoli risg, rheoliadau iechyd a diogelwch a disgwyliadau mewn perthynas â llesiant a diogelu | * | | Ll, C, G |
| Dealltwriaeth o strwythurau esgobaethol ac ardaloedd gweinidogaeth | | * | Ll, C |
| Y gallu i feddwl yn feirniadol a defnyddio offer dadansoddi data ac ystadegau, technegau, cysyniadau ac ymarfer myfyriol i lywio cynllunio, cefnogi a herio | * | | Ll, C, G |
| Gweledigaeth a gallu i ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y bwrdd addysg statudol esgobaethol yn unol â'r dull gweithredu Esgobaethol a'r gallu i weithio ar y cyd i droi strategaeth a gweledigaeth yn gynllunio gweithredol, prosiectau a gwerthuso perfformiad, canlyniadau ac effaith | * | | Ll, C |

| Sgiliau a rhinweddau personol | H | D | T |
|---|---|---|---|
| Hanes profedig o ddylanwadu a meithrin eraill, meithrin ymddiriedaeth, cydweithio ac undod, dangos tosturi, gonestrwydd ac uniondeb, dangos cydnerthedd o dan bwysau a chyflawni gweledigaeth sy'n ysbrydoli eraill i ymgysylltu â gweledigaeth yr Esgobaeth ar gyfer ei hysgolion | * | | Ll, C, G |
| Bod â ffydd Gristnogol gan ddeall pwysigrwydd defnyddio doniau Duw i adeiladu, arfogi a bendithio eraill o fewn ysgolion eglwysig | * | | Ll, C, G |
| Parodrwydd i fentro mewn perthynas â chyfleoedd newydd gyda'r gallu i ymateb yn greadigol ac yn llwyddiannus | * | | Ll, C, G |
| Gallu ac ymrwymiad i weithio ar ei ben ei hun ac fel rhan o dîm, modelu a hyrwyddo diwylliant cynhwysol a chydweithredol lle mae amrywiaeth cefndiroedd a phrofiadau unigol yn cael eu dathlu, eu gwerthfawrogi a'u parchu | * | | Ll, C, G |
| Dangos lefelau uchel o ddeallusrwydd emosiynol i hwyluso ffyrdd o weithio a fydd yn integreiddio ac yn cysoni gwaith y bwrdd addysg statudol esgobaethol yn yr esgobaeth | * | | Ll, G |
| Y gallu i ysgogi'r tîm staff, cydnabod eu cryfderau a'u grymuso i ymateb yn adeiladol ac yn wrthrychol i feirniadaeth a her | * | | Ll, C, G |
| Sgiliau rhyngbersonol a bugeiliol rhagorol wedi'u bywiogi gan alwad bersonol ac ymdeimlad o wasanaeth Cristnogol | * | | Ll, C, G |
| Arddangos sgiliau cyfathrebu rhagorol | * | | Ll, C, G |
| Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn Saesneg ac yn Gymraeg yn rhugl ac yn gywir | | * | Ll, C, G |

| Sgiliau a rhinweddau personol | H | D | T |
|---|---|---|---|
| Y gallu i fynegi gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ffyrdd sy'n berthnasol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gyda'r hyder a'r arbenigedd i arwain hyfforddiant | * | | Ll, C, G |
| Y gallu i feithrin perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol | * | | Ll, C, G |
| Cymhwysedd wrth ddefnyddio ystod o raglenni TG a'r gallu i gofleidio technolegau newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd | * | | Ll, C, G |
| Ffactorau ychwanegol | | | |
| Deiliad trwydded yrru gyfredol a bod â cherbyd | * | | Ll |
| Gwiriad DBS uwch boddhaol | * | | Ll |



# *Prif Delerau ac Amodau*

## Oriau gwaith

Yr oriau swyddfa craidd yw rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gydag egwyl awr i ginio i'w chymryd fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, mae natur y rôl yn golygu y bydd disgwyl i'r penodai weithio oriau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r swydd yn effeithiol.

## Cyflog

Cyflog cychwynnol o £55,000 - £60,000, yn dibynnu ar brofiad, gyda Chynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig

## Pensiwn

Cynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig ar gael. Bydd y cyflogwr yn cyfrannu 15% o gyflog pensiynadwy y cyflogai a gall y cyflogai ddewis gwneud cyfraniad gwirfoddol ychwanegol o unrhyw gyfran o'i gyflog pensiynadwy.

## Hawl i Wyliau

28 diwrnod mewn blwyddyn galendr ynghyd â gwyliau banc. Mae'r flwyddyn wyliau yn rhedeg o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr

## Lleoliad

Tŷ Deiniol, Bangor, i'r graddau bod swyddfa yn ddefnyddiol, er y bydd y rôl yn gofyn am deithio ar draws gogledd-orllewin Cymru. Mae rhywfaint o weithio gartref yn bosibl hefyd.

## Treuliau

Bydd yr holl gostau gwaith rhesymol yn cael eu talu ar y cyfraddau esgobaethol y cytunwyd arnynt

## Cyfnod Prawf

Bydd y swydd hon yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn foddhaol.

# *Gwybodaeth i Ymgeiswyr*

Rydym yn falch o roi manylion i chi am esgobaeth Bangor, yn ogystal â gwybodaeth am y cyfle cyffrous newydd hwn. Gobeithiwn y bydd y pecyn hwn yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn ystyried a fyddech yn gwneud cais am y cyfle hwn.

## Ceisiadau

Rhaid i ni dderbyn ceisiadau erbyn 15pm ar 9 Rhagfyr. Dylech gynnwys copi o'ch CV, gyda llythyr eglurhaol dim mwy na dwy ochr A4 yn disgrifio'r hyn sy'n eich denu i'r rôl hon, eich profiad, a sut mae'n berthnasol i'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan y swydd hon. Rhowch enw dau ganolwr i ni hefyd.

E-bostiwch eich cais i Archddiacon Meirionnydd, Robert Townsend - roberttownsend@churchinwales.org.uk.

## Rhestr fer

Er mwyn sicrhau tegwch y broses ddethol, bydd y rhestr fer yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich cais yn unig ac ni wneir rhagdybiaethau ynghylch eich profiad a'ch sgiliau. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth amlwg eich bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am ganlyniadau'r rhestr fer.

## Cyfweliad

Bydd hwn yn cael ei gynnal ym Mangor ar 18 Rhagfyr. Bydd rhagor o fanylion am y broses ddethol yn cael eu cyfleu ar yr adeg y gwahoddir ymgeiswyr i gyfweliad. Bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon boddhaol a datgeliad DBS uwch. Byddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn y cyfweliad, felly rhowch wybod i ni os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â'ch canolwyr.

Am sgwrs anffurfiol am yr apwyntiad: Archddiacon Robert Townsend, roberttownsend@churchinwales.org.uk, 07789 625225

**Esgobaeth Bangor**
The Diocese of Bangor